

Ystadegau chwarterol ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru

Cefndir

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae'r ystadegau hyn ar gamddefnyddio sylweddau yn cyflwyno'r gweithgarwch o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM). Caiff y gweithgarwch ei grynhoi yn ôl gweithgarwch atgyfeirio o fewn y cyfnod ac unrhyw asesiadau, triniaethau neu wybodaeth derfynu sydd wedi dod i law.

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn diweddarau'r tablau a gyhoeddir gan StatsCymru bob chwarter ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn llunio adroddiad manwl ar wasanaethau trin bob blwyddyn a gaiff ei gyhoeddi wedyn ar wefan Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru.

Ffynhonnell y data

Caiff yr ystadegau eu cydgrynhoi o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM). Mae cronfa ddata WNDSM yn cynnwys manylion pob atgyfeiriad a wneir i ddarparwyr gwasanaethau trin Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru a chaiff ei chynnal gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

Y Bwrdd Rheoli Gwybodaeth Cenedlaethol a arferai fod yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y system, gan gynnwys rhoi cyngor ar welliannau i'r gronfa ddata, ymdrin â materion perfformio cenedlaethol a oedd yn gysylltiedig â'r data a dadansoddi data arall a gasglwyd yn rheolaidd. Yn ystod 2014-15, daeth y Bwrdd Gwybodaeth a Dadansoddi Data (DIA

B) yn gyfrifol am y swyddogaeth hon.

Cwmpas

Mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaeth trin camddefnyddio sylweddau yng Nghymru sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r Byrddau Cynllunio Ardal, sydd â'r un ffiniau â'r Byrddau Iechyd, gydymffurfio â gofynion adrodd y gronfa ddata.

Data ar bobl sy'n defnyddio darparwyr gwasanaethau trin yn unig a gyflwynir, ac mae'n bosibl nad ydynt yn cynrychioli ond cyfran o'r holl gamddefnyddwyr sylweddau.

Defnyddwyr a Defnydd

Nod yr ystadegau hyn yw cyflwyno data sydd wedi'i gasglu gan ddarparwyr gwasanaethau trin o'u data clinigol a gweinyddol eu hunain mewn fformat hygyrch sy'n darparu crynodeb ystadegol o'r gwasanaethau deintyddol cymunedol ledled Cymru. Bydd yr ystadegau hyn yn ddefnyddiol o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru. Rydym ni'n o'r farn mai defnyddwyr allweddol ystadegau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yw:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr;
- Aelodau o'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Darparwyr gwasanaethau Trin Camddefnyddio Sylweddau;
- Cymunedau a'r Llywodraeth Leol;
- Awdurdodau unedol y llywodraeth leol (aelodau a swyddogion etholedig);
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- Meysydd eraill o Lywodraeth Cymru;
- Adrannau eraill o'r llywodraeth; a
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat.

Caiff yr ystadegau eu defnyddio mewn amryw ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau o'r ffordd y cânt eu defnyddio:

- Rhoi cyngor i Weinidogion;
- Asesu perfformiad gwasanaethau trin o'u cymharu â thargedau;
- Hysbysu prosiectau gwella gwasanaethau o ran meysydd y dylid canolbwyntio amynt a chyfleoedd i wella ansawdd.

Os ydych chi'n ddefnyddiwr ac yn teimlo nad yw'r rhestr uchod yn cyfleu yr hyn yr ydych yn ei wneud, neu os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhestr ddisbarthu, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost at ystadegau.iechyd@cymru.gsi.gov.uk.

Cryfderau a Chyfyngiadau'r Data

Cryfderau

- Darperir ystadegau manwl ar ein gwefan StatsCymru
- Mae'r tablau yn canolbwyntio'n glir ar Gymru ac maen nhw wedi'u datblygu i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru. Eu nod yw cyfrannu at gyd-destun ystadegol y polisi presennol ym maes gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru a mynd i'r afael â'r angen am i nifer Ddangoswyr Perfformiad Allweddol (KPIs) gael eu diweddarau'n rheolaidd
- Caiff yr wybodaeth ei phrosesu a'i chyhoeddi yn rheolaidd ac mewn modd trefnus er mwyn galluogi defnyddwyr i weld yr ystadegau pan fyddant yn gyfredol ac o'r diddordeb mwyaf.
- Gwnaed defnydd effeithlon o ffynonellau data gweinyddol i gynhyrchu'r tablau.

Cyfyngiadau

- Bwriedir i'r wybodaeth ar StatsCymru gael ei defnyddio gan gynulleidfa fwy gwybodus, ac ni chynigir llawer o eglurhad a fyddai'n galluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data yn briodol.
- O ganlyniad i'r gweinyddiaethau datganoledig a'r gwahanol bolisiau, mae llai o gyfle i wneud cymariaethau uniongyrchol ledled y DU (gweler 'Cymharedd' yn ddiweddarach yn y ddogfen hon).
- Mae'r gronfa ddata'n ddynamig, h.y. mae'n rhaid diwygio'r cofnodion pan gyflwynir rhagor o wybodaeth gan ddarparwyr gwasanaethau trin. Golyga hyn na ellir cymharu ffigurau presennol a ffigurau blaenorol yn uniongyrchol (gweler yr adrannau Diwygiadau isod).

Y gylchred prosesu data

Casglu data

O ran ystadegau chwarterol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddetholiad o WNDSM gan NWIS cyn cyhoeddi tablau chwarterol StatsCymru.

Dilysu a Gwirio

Caiff y data ei gyflwyno ar daenlenni Excel gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) trwy drosglwyddo data dros y we yn ddiogel. Bydd darparwr data yn cynnal gwiriadau dilysu a chaiff y data ei wirio eilwaith pan ddaw i law. Codir unrhyw anghysondebau wedi hyn gan y darparwr data. Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a NWIS yn gyfle i drafod materion gwybodaeth ymhellach ac fe'u trefnir fel y bo angen.

Mae system dilysu ffynonellau data wedi'i chyflwyno i ddarparwyr gwasanaethau trin, sy'n cynnwys adborth uniongyrchol ar ansawdd data, dilysiad, camgymeriadau llwytho a gwiriadau cysondeb ar eu data pan fyddant yn ei gyflwyno i'r gronfa ddata genedlaethol. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i roi i bob darparwr gwasanaeth trin ar y broses o ddilysu ffynonellau data, ac mae hyn wedi gwella ansawdd y data a gyflwynwyd i'r gronfa ddata.

Cyhoeddi

Mae'r ystadegau a gyhoeddir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar StatsCymru wedi'u cynhyrchu o'r ffynhonnell ddata a ddisgrifiwyd uchod.

Gwybodaeth ansawdd allweddol

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) yn ymlynu at strategaeth ansawdd sy'n cyd-fynd ag Egwyddor 4 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Yn benodol, mae'r rhestr isod yn darparu gwybodaeth ar sail chwe dimensiwn ansawdd System Ystadegol Ewrop.

Perthnasedd

Ar ein tudalennau '[Ynghylch Ystadegau ac Ymchwil](#)' rydym yn darparu cefndir i'n hystadegau a gwybodaeth i ddefnyddwyr. Anogir defnyddwyr yr ystadegau i gysylltu â ni i nodi sut y maent yn defnyddio'r data.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau a, phan fo'n bosibl, yn hysbysebu'r newidiadau ar y rhyngwrdd, mewn pwyllgorau ac ar rwydweithiau eraill er mwyn ymgynghori â defnyddwyr yn fwy eang. Rydym yn ceisio ymateb yn gyflym i newidiadau polisi er mwyn sicrhau bod ein hystadegau yn parhau i fod yn berthnasol.

Cywirdeb

Mae'r gronfa ddata'n ddeinamig, hynny yw, mae'r cofnodion yn destun diwygiadau wrth i ragor o wybodaeth gael ei chyflwyno gan ddarparwyr gwasanaethau trin. Golyga hyn y bydd adolygiadau i ffigurau'r cyfnodau blaenorol yn anochel a dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r data. O ganlyniad, bydd data a gyhoeddir am y tro cyntaf ar gyfer cyfnod penodol yn cael ei nodi fel data 'dros dro'. Caiff cofnodion agored a chaeedig darparwyr gwasanaethau trin, nifer y darparwyr gwasanaethau trin sy'n cyflwyno data a'r diwygiadau a gaiff eu gwneud gan ddarparwyr gwasanaethau trin hefyd eu monitro o un chwarter i'r llall.

Nodwch fod y chwarter diweddaraf yn tueddu i fod â nifer uwch o gofnodion agored o'i gymharu â'r chwarteri blaenorol gan fod llai o ddiweddariadau wedi'u derbyn ar gyfer y cofnodion ac mae darparwyr gwasanaethau trin yn cadw cofnodion ar agor am hyd at 6 wythnos cyn eu cau os nad yw'r cleient yn rhoi sylw iddynt.

Mae ein tablau StatsCymru yn cynnwys metadata sy'n darparu gwybodaeth ansawdd allweddol am gwmpas, amseru a daearyddiaeth.

Os bydd achos annhebygol yn codi lle y cyhoeddir data anghywir, byddai diwygiadau yn cael eu gwneud a byddem yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr yn unol â [Threfniadau Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Data a ddiwygiwyd yn 2014

Cafodd ystadegau sy'n ymwneud â'r cyfnod hyd at fis Ionawr i fis Mawrth 2014 eu cyhoeddi'n wreiddiol ar 26 Awst 2014, ond cawsant eu tynnu'n ôl ar 1 Hydref 2014 oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd y data.

Cododd y materion ansawdd hyn o 1 Ebrill 2014 ymlaen yn ystod y broses o lunio cronfa ddata newydd ar sail digwyddiadau, a argymhellwyd ar ôl adolygiad o ddata trin camddefnyddio sylweddau. Arweiniodd hyn at ddyblu cofnodion a cholli gwybodaeth am driniaethau. Mae'n debygol bod y camgymeriadau hyn wedi arwain at orbwysleisio canran y triniaethau a oedd yn

dechrau o fewn 20 diwrnod gwaith. Cymerodd NWIS gamau i ddatrys y problemau hyn, gan gynnwys:

- Gwnaeth pob darparwr gwasanaeth trin ailgyflwyno ei gofnodion agored ym mis Ebrill 2014 er mwyn sicrhau bod gan NWIS gofnod cyflawn a chywir o'r holl gofnodion a oedd i'w gweld ar systemau lleol darparwyr gwasanaethau trin.
- Cynhaliodd NWIS a'r darparwyr gwasanaethau trin ymarfer ansawdd data lle yr anfonwyd lefelau gweithgarwch yr holl ddarparwyr gwasanaethau trin atynt a gofynnwyd iddynt gadarnhau a oedd y gweithgarwch yn adlewyrchiad cywir o'u llwyth gwaith.
- Aeth NWIS ati i weithio gyda'r darparwyr gwasanaethau trin i nodi lle'r oedd y camgymeriadau a'u cynorthwyo i ddatrys unrhyw broblemau.
- Cyflwynwyd proses o ddilysu ffynonellau a oedd yn cynnwys adborth uniongyrchol ar ansawdd data, dilysiad, camgymeriadau llwytho a gwiriadau cysondeb ar eu data ar adeg ei gyflwyno i'r gronfa ddata genedlaethol.
- Hyfforddiant i'r holl ddarparwyr gwasanaethau trin ar y broses o ddilysu ffynonellau, sydd wedi gwella ansawdd y data a lleihau nifer y codau annilys a gyflwynir i'r gronfa ddata.

Cyhoeddwyd ystadegau chwarterol diwygiedig ar 5 Awst 2015, yn dilyn cyfnod pan na wnaethpwyd unrhyw ddiweddariadau chwarterol.

Data a ddiwygiwyd yn 2016

Y broses a ddilynwyd ar gyfer cynhyrchu data i'w ryddhau oedd nodi data pob chwarter a oedd yn cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf fel data 'dros dro' ac fel data 'diwygiedig' yn y diweddariad nesaf. Ers ailgyflwyno'r ystadegau chwarterol ym mis Awst 2015, mae rhagor o ddiweddariadau wedi'u gwneud i dablau chwarterol StatsCymru, sef:

- Ailgyflwyno ym mis Awst 2015: diweddarwyd y chwarter rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2014 a'r chwarteri blaenorol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2013
- Yn ddiweddarach ym mis Awst 2015, diweddarwyd y chwarter rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015
- Ym mis Tachwedd 2015, diweddarwyd y chwarter rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2015
- Ym mis Chwefror 2016, diweddarwyd y chwarter rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2015
- Ym mis Mai 2016, diweddarwyd y chwarter rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2015
- Ym mis Awst 2016, diweddarwyd y chwarter rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016

Yn ystod 2016, daeth yn amlwg bod darparwyr gwasanaethau trin yn gwneud rhagor o ddiwygiadau i'r data ar ôl i'r data gael ei gyhoeddi fel data 'diwygiedig', ac felly'n ddata terfynol. Cynhaliwyd adolygiad o ansawdd y data i wirio effaith y diwygiadau pellach hyn ar ystadegau allweddol.

Adolygu ansawdd data: Defnyddiodd KAS ddata a ddarparwyd gan NWIS i ymchwilio i'r diwygiadau pellach hyn a wnaed i'r data gan ddarparwyr gwasanaethau trin, gan edrych ar faint y diwygiadau hyn a'u heffaith ar y canlynol:

- Atgyfeiriadau
- Asesiadau
- Dyddiadau dechrau triniaethau
- Canran a gafodd eu trin o fewn 20 diwrnod gwaith
- Cofnodion a gaewyd
- Canran y cofnodion arfaethedig i'w cau

Amlygodd yr adolygiad fod y data yn cael ei adolygu hyd yn oed ar ôl tri chwarter, ac fel arfer tuag at i fyny ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau, dechrau triniaeth a chau achosion, a chredir fod data wedi'i dangyfrif yn y data a ryddhawyd yn unol â'r rhestr ryddhau. Gwnaeth canran y caeadau a gynlluniwyd a chanran y bobl a gafodd eu trin o fewn 20 niwrnod gwaith gynyddu mewn rhai chwarteri a lleihau mewn eraill. Awgrymodd NWIS hefyd fod y caeadau yn debygol o newid ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol wrth i ddarparwyr gwasanaethau trin adolygu eu data.

Cyflwynwyd canlyniadau'r adolygiad ansawdd i'r Bwrdd Gwybodaeth a Dadansoddi Data (DIAB) ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau ar 13 Medi 2016. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd drafod y diwygiadau i'r data camddefnyddio sylweddau chwarterol ac i ddod i benderfyniad ynghylch y rhestr ryddhau. Cynghorodd y bwrdd y dylid cyflwyno diwygiadau ychwanegol gan adolygu'r ystadegau chwarterol o 4 chwarter yn ôl, sy'n cyfateb â gwerth blwyddyn o ddata. O ganlyniad, cafodd y data ei ddiwygio ar gyfer pob chwarter o chwarter mis Ebrill i fis Mehefin 2015 yn y data a ryddhawyd ym mis Tachwedd 2016 ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin 2016. Yn ogystal, fel newid untro i'r broses ddiwygio newydd, cafodd data o fis Ionawr a mis Mawrth 2014 ymlaen ei ddiwygio gyda'r data diweddaraf sydd gennym ar gyfer y chwarteri hyn.

Cafodd yr ystadegau chwarterol diwygiedig, yn cynnwys y cyfnod diwygio hirach, eu cyhoeddi ar 30 Tachwedd 2016.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r holl allbynnau yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer trwy gyhoeddi'r dyddiad cyhoeddi ymlaen llaw trwy'r calendr i ddod. Hefyd, pe byddai angen gohirio allbwn, byddai hwn yn dilyn trefniadau [Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cyhoeddi'r data rhyddhau cyn gynted â'i fod yn ymarferol i wneud hynny ar ôl y cyfnod amser perthnasol. Caiff tablau StatsCymru ar gamddefnyddio sylweddau eu diweddarau bob chwarter ym misoedd Tachwedd, Chwefror, Mai ac Awst. Mae cyflenwyr y data, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), yn darparu'r data i Lywodraeth Cymru oddeutu 4 mis ar ôl diwedd y chwarter sydd i'w gyhoeddi ac oddeutu mis cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau'r data. Mae'r data yn nhablau chwarterol StatsCymru, felly, ar gyfer y cyfnod amser o 5 mis cyn y dyddiad rhyddhau.

Fel arfer, mae darparwyr gwasanaethau trin yn cyflwyno data misol i NWIS rhwng y 9fed a'r 11eg o'r mis a chaiff y data yn NWIS ei adnewyddu fel arfer rhwng yr 20fed i'r 22ain o'r mis. Mae'r data ar gael i'w ddefnyddio o'r 22ain o bob mis.

Hygyrchedd ac eglurder

Cyhoeddir dolen i'r ystadegau mewn modd hygyrch a threfnus ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru am 9:30am ar y diwrnod cyhoeddi. Mae ffrwd RSS yn hysbysu defnyddwyr cofrestredig o'r cyhoeddiad hwn. Rydym hefyd yn cyhoeddi ein hallbynnau ar Twitter.

Caiff yr ystadegau eu diweddarau ar wefan StatsCymru a gellir trin y data ar-lein neu ei lawrlwytho i daenlenni i'w defnyddio all-lein.

Rydym yn ceisio defnyddio Cymraeg Clir yn ein hallbynnau ac mae'r holl allbynnau yn cydymffurfio â pholisi hygyrchedd Llywodraeth Cymru. Caiff ein holl benawdau eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg hefyd.

Cyhoeddir yr holl ddata ar ein gwefan ryngweithiol, [StatsCymru](#).

Cymharedd a chydlyniad

Pan fydd newidiadau i'r data a ddarparwyd, caiff y rhain eu dangos yn glir yn yr allbynnau. Pan roddir rhybudd ymlaen llaw am newidiadau yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Caiff ystadegau camddefnyddio sylweddau ar gyfer cenhedloedd eraill y DU eu cyhoeddi, a gellir eu gweld yn y dolenni isod, ond ni ellir cymharu'r data hwn yn uniongyrchol:

Lloegr: [NHS Digital website](#) (Saesneg yn unig)

Yr Alban: [Health Information for Scotland website](#) (Saesneg yn unig)

Gogledd Iwerddon: [Department of Health website](#) (Saesneg yn unig)

Bob blwyddyn, caiff y data ei gasglu o'r un ffynonellau ac mae'n cydymffurfio â'r safon genedlaethol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, cydnherthol, iach sydd â chyfrifoldeb byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n rhaid eu defnyddio at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) cyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig - [Sut mae mesur cynnydd cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Rhagor o wybodaeth am ['Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y data rhyddhau hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau lles lleol a'u cynlluniau lles lleol.

Rhagor o fanylion

Gellir dod o hyd i'r ystadegau yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Substance-Misuse>

Rydym ni eisiau clywed eich sylwadau

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy anfon e-bost at ystadegau.iechyd@cymru.gsi.gov.uk.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), oni nodir yn wahanol.



Cynhyrchwyd gan Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2016